Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

CYNLLUN CYHOEDDI

1. Cyflwyniad

Dyma'r Cynllun Cyhoeddi ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a luniwyd o dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorff a sefydlwyd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiwn Ffiniau 1992, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn i gynnal arolygon parhaus o'r etholaethau seneddol yng Nghymru a chynnal arolwg cyffredinol o bob etholaeth o bryd i'w gilydd (bob 8 i 12 mlynedd) ar yr un pryd. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg o bum rhanbarth etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'r nifer o aelodau i'w hethol o bob rhanbarth etholiadol.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn ymgymryd â'i bumed arolwg cyffredinol. Yn dilyn yr arolwg hwn caiff gwaith y Comisiwn ei drosglwyddo i'r Comisiwn Etholiadol.

Aelodau

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, yn rhinwedd ei swydd, yw Cadeirydd y Comisiwn. Mae'r Is-Gadeirydd yn farnwr yn yr Uchel Lys, a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, sy'n cadeirio cyfarfodydd y Comisiwn. Ceir dau Gomisiynydd arall - penodwyd y naill gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r llall gan y Dirprwy Brif Weinidog.

Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'n Cynllun Cyhoeddi a'n polisi Rhyddid Gwybodaeth ar gael gan y Comisiwn yn y cyfeiriad isod.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â Rhyddid Gwybodaeth a Chynlluniau Cyhoeddi yn gyffredinol ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dangosir manylion yn yr adran Pwyntiau Cyswllt ar ddiwedd y Cynllun.

Cyfrifoldebau

Mae Mr Edward Lewis, Ysgrifennydd y Comisiwn, yn gyfrifol am y cynllun ar ran y Comisiwn.

Mae Mr Steve Halsall yn gyfrifol am gynnal y cynllun o ddydd i ddydd.

Gellir cysylltu â Mr Lewis a Mr Halsall yn y cyfeiriad isod.

Diben a Strwythur y Cynllun Cyhoeddi

Diben y Cynllun Cyhoeddi hwn yw amlinellu :

i) Y wybodaeth yr ydym yn ymrwymo i'w chyhoeddi yn ôl yr arfer.
ii) Sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi.
iii) A yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu a chodir tâl amdani.

Dangosir y categorïau o wybodaeth y mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ymrwymo i'w cyhoeddi o dan benawdau a restrir yn nhrefn yr wyddor ac fe'u dilynir gan ddisgrifiad byr o'r wybodaeth.

Gwybodaeth eithriedig

Ym mhob achos, nid yw'r cyhoeddiadau yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi ei diogelu o dan yr eithriadau a nodwyd yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Lle y bydd categorïau unigol wedi'u heithrio, y prif resymau dros hyn yw rhesymau o ran gwybodaeth bersonol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a diogelu buddiannau masnachol.

Copïau a fformatau ychwanegol

Mae copïau o'r Cynllun hwn hefyd ar gael mewn print bras. Caiff y Cynllun ei gyhoeddi ar ffurf Braille a/neu fformatau tâp sain hefyd os bydd angen. Cyhoeddwyd y Cynllun yn Gymraeg a Saesneg a bydd y Comisiwn yn ystyried ceisiadau i gynhyrchu'r Cynllun mewn ieithoedd eraill. Mae copïau o'r Cynllun ar gael am ddim gan y Comisiwn (cyfeiriad isod).

2. Cael o dod o hyd i gyhoeddiadau

Mae'r wybodaeth yn y categorïau yr ydym yn ymrwymo i'w cyhoeddi o dan y Cynllun hwn ar gael mewn sawl fformat. Mae pob dogfen ar gael ar gopi caled a chyhoeddir y mwyafrif ohonynt yn electronig (fel tudalennau gwe HTML, a/neu ffeiliai PDF Adobe Acrobat a/neu ddogfennau Word). Lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n electronig nodir hyn yn glir o dan y categori perthnasol.

Dylid anfon ceisiadau am gopïau o gyhoeddiadau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru at ein Canolfan Cyhoeddiadau fel y dangosir isod. Os nad oes gennych fanylion llawn am beth sydd ei angen arnoch, dylech gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth.

Mae manylion cyswllt y Comisiwn fel a ganlyn:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: (029) 2039 5031
Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk

Ar gyfer y rheini sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd

Gellir cael mynediad i ddogfennau electronig yn uniongyrchol o wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Y cyfeiriad yw: www.comffin-cymru.gov.uk

Er mwyn darllen dogfennau PDF, bydd angen Adobe Acrobat Reader arnoch; mae hwn ar gael am ddim o wefan Adobe: www.adobe.com/products/acrobat/reastep.html

3. Hawlfraint

Mae pob cyhoeddiad y Comisiwn yn ddarostyngedig i Hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu deunydd ar gyfer defnydd personol neu fewnol heb ganiatâd ffurfiol na thâl. Ni chaniateir atgynhyrchu deunydd i'w gwerthu neu at ddibenion masnachol eraill. Ar gyfer defnydd arall neu os oes unrhyw amheuaeth gennych, gallwch gael gwybodaeth a nodiadau arweiniad pellach ar gyhoeddi a hawlfraint gan

HMSO Licensing Division,
St. Clements House,
2-16 Colgate,
Norwich
NR3 1BQ

Ffôn: (01603) 621000
Gwefan: www.hmso.gov.uk/copy.htm
www.hmso.gov.uk/guides.htm

Cynhyrchir y mapiau amlinellol a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan drwydded gan ddata Arolwg Ordnans ac maent yn ddarostyngedig i Hawlfraint y Goron hefyd. Gellir cael manylion pellach ar y trefniadau trwyddedu gan

Ordnance Survey
Central Government Copyright Licensing Team
Ordnance Survey
Romsey Road
SOUTHAMPTON
SO16 4GU

Ffôn: (023) 8079 2953
e-bost: centgov@ordsvy.gov.uk

4. Polisi Codi Tâl

O dan Cod Ymarfer y Comisiwn ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth mae gennym bolisi dim ffi, neu isafswm ffi, ar gyfer darparu gwybodaeth. Felly, mae copïau unigol o gyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gael am ddim. Efallai y bydd y Comisiwn yn dymuno adennill costau copïo, cludiant a phecynnau lle y gwneir ceisiadau am nifer o gopïau neu am nifer o gyhoeddiadau.

5. Y categorïau o wybodaeth yr ydym yn ymrwymo i'w cyhoeddi

Nodwch y caiff Adroddiad y Comisiwn ar ei Bumed Arolwg Cyffredinol ei gyhoeddi gan y Llyfrfa a bydd ar gael gan y Llyfrfa yn unig.

Ni chyhoeddwyd yr eitemau a amlygwyd o'r blaen.

Gwybodaeth ac arweiniad cefndirol

Arolygon o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Disgrifiad: Cefndir i waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru, y rheolau y mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu yn unol â hwy a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chynnal arolwg o etholaethau seneddol
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Codau Ymarfer

Cod Ymarfer ar gyfer Comisiynwyr

Disgrifiad: Cod sy'n cynnal gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus, sef dideueddrwydd, uniondeb, gwrthrychedd ac atebolrwydd
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Cynllun yr Iaith Gymraeg

Disgrifiad: Cynllun y Comisiwn i roi grym i'r egwyddor y caiff yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg eu trin yn gyfartal wrth gyflwyno ei wasanaethau.
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Comisiynwyr

Cofrestr o fuddiannau'r Comisiynwyr

Disgrifiad : Cofrestr o gwmnïau, ymddiriedolaethau, partneriaethau, sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw (e.e. elusennau, cymdeithasau tai) neu gyrff cyhoeddus y mae Comisiynydd o bosibl yn perthyn iddynt neu y mae ganddo fuddiant ynddynt
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Cofnodion a dogfennau ymchwiliadau cyhoeddus

Datganiadau ymchwiliadau, trawsgrifiadau gair am air ac adroddiadau Comisiynwyr Cynorthwyol

Disgrifiad: Datganiad ar ddiben a dull cynnal yr ymchwiliad, trawsgrifiadau gair am air o'r gweithrediadau a'r adroddiad a gyflwynir gan y Comisiynydd Cynorthwyol yn gwneud ei argymhellion/hargymhellion ar ôl dadansoddi'r holl dystiolaeth a gyflwynir
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Cylchlythyrau

Disgrifiad : Gwybodaeth ac arweiniad pellach a gyhoeddir trwy gydol arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Hysbysiadau i'r Wasg a Datganiadau Newyddion

Disgrifiad: Hysbysiadau sy'n ymddangos mewn papurau lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i argymhellion y Comisiwn ac yn cyhoeddi

ymchwiliadau lleol, ac esboniadau manylach o argymhellion y Comisiwn ar gyfer y cyfryngau a phartïon sydd â diddordeb
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Adroddiadau

Adroddiadau Blynyddol

Disgrifiad : Adroddiad blynyddol o weithgareddau a gwariant y Comisiwn yn ystod y flwyddyn flaenorol
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Cyhoeddiadau Arolygon

Argymhellion dros dro, diwygiedig, terfynol ac wedi'u haddasu ar gyfer etholaethau seneddol

Disgrifiad : Manylion am argymhellion a phenderfyniadau'r Comisiwn ar gyfer etholaethau seneddol a'r mapiau sy'n gysylltiedig â hwy, a roddir ar adnau i'w harchwilio gan bartïon sydd â diddordeb, ac a gyhoeddir trwy Hysbysiadau i'r Wasg a Datganiadau Newyddion
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau:

Sylwadau a chyflwyniadau

Disgrifiad : Y sylwadau a geir oddi wrth y pleidiau gwleidyddol, awdurdodau lleol, aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch argymhellion a phenderfyniadau'r Comisiwn
Argaeledd: Post; Gwefan [www.bcomm.wales.gov.uk]
Pris: Dim
Nodiadau: Ceir crynodebau o'r sylwadau ar y Wefan [www.bcomm.wales.gov.uk]. Dim ond trwy'r post y gellir cael copïau o'r sylwadau.

6. Pwyntiau cyswllt

Cyhoeddiadau

Dylid anfon ceisiadau am gopïau o gyhoeddiadau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru at:

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Tŷ Caradog,
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: (029) 2039 5031
Fffacs: (029) 2039 5250
E-Bost: comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk

Adborth, cwestiynau a gwybodaeth bellach

Cynllun Cyhoeddi

Rydym am sicrhau bod ein Cynllun Cyhoeddi yn diwallu eich anghenion. Rydym yn croesawu awgrymiadau am gategorïau ychwanegol o wybodaeth a ellid cael eu cynnwys yn y dyfodol – a hefyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir yn fwy hygyrch i chi.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau, sylwadau neu gwynion ynglŷn â'r Cynllun hwn at:

Mr Edward Lewis
Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Tŷ Caradog,
1-6 Plas St Andrews
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: (029) 2039 5031
Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk

Ceisiadau am Wybodaeth

Gellir gofyn am wybodaeth sydd gan y Comisiwn ond nad yw wedi ei chyhoeddi.

Dylid anfon ceisiadau i'r cyfeiriad uchod.

Cwynion ynglŷn â'r Comisiwn

Dylid cyflwyno cwynion ynghylch sut y caiff y cynllun cyhoeddi hwn ei weithredu neu sut y caiff gwybodaeth ei darparu, yn y lle cyntaf, i Ysgrifennydd y Comisiwn yn y cyfeiriad uchod.

Y Comisiynydd Gwybodaeth

Information Commissioner,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: (01625) 545 745
Ffacs: (01625) 524 510
E-bost: mail@dataprotection.gov.uk
www.dataprotection.gov.uk